# CYNGOR SIR YNYS MÔN

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **CYNGOR SIR** |
| **DYDDIAD:** | **8 CHWEFROR 2011** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **LWFANSAU AELODAU** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **YSTYRIED ADRODDIAD PANEL ARIANNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **CYFARWYDDWR CORFFORAETHOL (CYLLID)** |
| **GWEITHREDU:** | **PENDERFYNU AR GYFRADDAU LWFANSAU AR GYFER 2011-12** |

Cyhoeddodd Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol eu Hadroddiad Blynyddol yn Rhagfyr 2010 ar y lwfansau uchaf y gellir eu talu i aelodau yn 2011-12.

Penderfynodd y Cyngor Sir ar 15 Medi 2009 :-

> “to adopt, as a statement of intent by this Council, that the total cost of members’ allowances should not rise over the next three years.”

Fodd bynnag, rhaid adolygu’r cyfraddau bob blwyddyn yn wyneb adroddiad y Panel ar Gydnabyddiaeth Ariannol. Gwnaed mân-newidiadau yn 2010 mewn ymateb i’r adroddiad blynyddol blaenorol tra’n gyffredinol yn anrhydeddu’r bwriad i rewi’r symiau a delir.

Yn Adroddiad Blynyddol y Panel ar Gydnabyddiaeth Ariannol, argymhellir rhewi’r lwfans uchaf y gellir ei dalu. Maent yn ogystal yn dwyn sylw at nifer o awdurdodau, gydag Ynys Môn yn eu plith, sydd ar hyn o bryd yn talu llai na’r uchafswm (gweler Atodiad 1 eu hadroddiad sydd ynghlwm yma). Eu safiad yw annog awdurdodau i dalu’r uchafswm er mwyn sicrhau cysondeb.

Yn y cynlluniau cyllidebol ar gyfer 2011-12, cymerir yn ganiataol na fydd chwyddiant ar y gyllideb lwfansau aelodau a hynny’n gyson â phenderfyniad Medi 2009. Y peth niwtral i’w wneud fyddai peidio newid cyfraddau’r lwfansau ar gyfer 2011-12.

Mae hwn yn fater i’r Cyngor llawn a gofynnir iddo wneud penderfyniad ynghylch lwfansau aelodau ar gyfer 2011-12.

**“Arweinydd Cysgodol” Arfaethedig**

Mae’r trafodaethau sydd eisoes wedi cychwyn rhwng grwpiau gwleidyddol ar brotocolau drafft a gyflwynir i’r Cyngor ym mis Mawrth yn cynnwys sefydlu Pwyllgor Gwaith Cysgodol a swydd ‘Arweinydd Cysgodol’. Pan baratowyd y rhain, ni ragwelwyd y byddai’r Arweinydd Cysgodol yn Arweinydd o’r Wrthblaid fwyaf. Oherwydd nad yw’r Cynghorydd Gareth Winston Roberts, sydd wedi ei apwyntio yn Arweinydd cysgodol, yn Arweinydd yr wrthblaid fwyaf, mae angen i’r Cyngor gytuno sut i drin y sefyllfa hon. Ar hyn o bryd, mae’r lwfans i ‘Arweinydd yr Wrthblaid’ dan y rheoliadau yn daladwy i arweinydd y grŵp mwyaf nad yw wedi’i gynrychioli ar y Pwyllgor Gwaith (nid yw hyn o angenrheidrwydd yr un fath â’r ‘Arweinydd Cysgodol’), ac nid oedd dim yn y rheoliadau na’r adroddiadau gan y Panel Cydnabyddiaeth i ganiatáu talu lwfans i Arweinydd Cysgodol. Mae gan y Panel Cydnabyddiaeth drefniadau i awdurdodau dalu lwfansau ar gyfer swyddi nad ydynt wedi’u nodi fel arall yn eu hadroddiadau gyda chymorth y Cyngor llawn, a lle rhoddir manylion llawn ynghylch y cyfrifoldebau ychwanegol.

Os bydd lwfans cyfrifoldeb arbennig yn gysylltiedig â swydd Arweinydd Cysgodol, byddai’n rhaid gwneud cais. Byddai modd gwneud hynny unwaith y bydd y protocolau wedi’u cwblhau, yn arbennig gan gynnwys disgrifiad swydd ar gyfer y swydd. Fodd bynnag, os yw cyfrifoldebau’r swydd hon yr un fath i raddau helaeth â chyfrifoldebau Arweinydd yr Wrthblaid, byddai’n anodd dangos bod y rhain yn gyfrifoldebau ychwanegol, ac eithrio os byddai lwfans i Arweinydd yr Wrthblaid yn cael ei ddileu ar yr un pryd.

Gofynnir i’r Cyngor ystyried

**(a)** A yw’n dymuno gwneud cais am lwfans i’w dalu ar gyfer swydd Arweinydd Cysgodol, pan fydd protocolau’n cael eu cyflwyno i sefydlu’r rôl hon;

**(b)** A ddylai hyn fod yn lle, ynteu’n ogystal â lwfans a delir i Arweinydd yr Wrthblaid.

**DAVID ELIS-WILLIAMS**
**CYFARWYDDWR CORFFORAETHOL (CYLLID)** **19 IONAWR 2011**